PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156/7 Rhif 52 / 1 Rhag 28, 2023 / Ion 4, 2024 50c.

**Blwyddyn newydd dda i bawb o ddarllenwyr *Y Tyst* yn 2024**

**'Arglwydd, buost yn amddiffynfa i ni ymhob cenhedlaeth. Cyn geni'r mynyddoedd, a chyn esgor ar y ddaear a'r byd, o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw.'**

**Salm 90:1–2**

## Ffynhonnau Byw




A yw eich eglwys chi yn dewis elusen i'w chefnogi pobl blwyddyn? Beth am ddewis Ffynhonnau Byw am 2024? Fel y gwyddoch erbyn hyn apêl arbennig Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol yw Ffynhonnau Byw. Y mae nifer o eglwysi eisoes wedi mynd ati i godi arian gydag amrywiol weithgareddau. Cofiwch anfon adroddiad a lluniau o'ch gweithgareddau chi i'r *Tyst* er mwyn i ni wybod am yr hyn sy'n digwydd ac annog ein gilydd i weithio dros y tlawd a'r anghenus.

### Sbardun

Os ydych yn chwilio am ysbrydoliaeth sut i gefnogi'r apêl y mae digon i'w cael ar wefan fywiog yr Undeb www.annibynwyr.org/cy/page/ffynhonnau-byw. Yma mae adnoddau deniadol wedi eu paratoi yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, posteri, fideos llawn gwybodaeth; gweddi'r apêl; script cyfan o wasanaeth pwrpasol; ceir taflen yn llawn gwybodaeth am Golombia ac o'r prosiectau y bydd arian yr apêl yn cael eu buddsoddi ynddynt.

### Prosiectau

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio yng Ngholombia ers dros 20 mlynedd. Hyd yn ddiweddar, roedd a wnelo'r gwaith â chefnogi cymunedau wedi eu heffeithio gan drais. Erbyn heddiw, mae cefnogi'r broses o adeiladu heddwch yn parhau'n bwysig, ond




mae'r elusen hefyd yn cefnogi hawliau merched, amddiffyn hawliau tir pobl frodorol, cefnogi ffermwyr i addasu yn wyneb newid hinsawdd a gwarchod ecosystemau angenrheidiol.

### Yr amgylchedd a'r economi

Un o'r prosiectau fydd yn cael ei hyrwyddo yw un sy'n cefnogi pobl sydd wedi eu dadleoli oherwydd datblygiad gwaith glo. Problem y mae tlodion a lleiafrifoedd yn ei wynebu ar bum cyfandir yw grym economaidd cwmnïau mawrion. Os y cwmnïau yn dod a gwaith ac elw ac yn talu trethi y mae llywodraethau yn caniatáu iddynt wneud yr hyn a fynnant a hynny yn aml ar draul hawliau dynol. Nid yw pobl wedyn ond anghyfleustra sy'n sefyll yn ffordd 'datblygiad'. Pan ddigwydd hyn y mae cyfiawnder yn cael ei sathru o dan droed fawr cyfalafiaeth. Rhaid inni felly fel Cristnogion, sefyll gyda'r rhai di-rym gan fynnu cyfiawnder yn erbyn y grymus a'r cyfoethog.

Dewch i ymuno gyda ni trwy fod yn rhan o'r apêl bwysig hon fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r anghenus gan ddod a chyfiawnder teyrnas Dduw i'r byd.

## Caersalem, Pontyberem



*Bore Sul 17 Rhagfyr 2023 tro plant yr Ysgol Sul oedd cyflwyno gwir neges yr Wyl. Llwyddwyd i wneud hynny ar lafar ac ar gan ein tywys at y wyrth rhyfeddod.*

# Cyngerdd Ffynhonnau Byw

Roedd hi'n hyfryd cael cynulleidfa lawn yn yr Eglwys Fethodistiaid, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, ar nos Fercher, 15 Tachwedd i fwynhau cyngerdd bendigedig gan Gôr Caerdydd. Codwyd swm anrhydeddus iawn, o £1,500 er budd Apêl Ffynhonnau Byw, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mewn cydweithrediad a Chymorth Cristnogol.

Cafwyd amrywiaeth o ddarnau corawl cyfoethog yn hanner cyntaf y cyngerdd gan gynnwys cyfieithiad Ceri Wyn Jones o waith John Rutter, 'Bendith Clare'; 'Laudate Dominum', Mozart; 'Rho im Iesu', Benjamin Harlan; 'Ev'ry time I feel the spirit', Bob Chilcott; 'Finlandia', trefniant Jeff Howard ac 'Un ydym ni', Caryl Parry Jones.

Yn ogystal â hynny, pleser oedd gwrando ar nifer o unawdwyr dawnus sef Aled Wyn Thomas (tenor) yn canu 'Llanrwst' gan Gareth Glyn; Dafydd Huw (piano) yn chwarae 'Fel yr Hydd' a Llio Rhys (soprano) yn canu 'Adre' gan Caryl Parry Jones.

Cafwyd anerchiad gan Catrin Jên am yr apêl Ffynhonnau Byw sydd yn canolbwyntio ar anghenion cymdeithasol Colombia, De America. *Requiem op.48*, Gabriel Fauré oedd uchafbwynt y noson yn ail hanner y cyngerdd gyda'r unawdwyr; Emma Watt ac Iwan Llechid yn serennu.

Wrth adael y cyngerdd, roedd pawb yn unfrydol ei bod yn noson i'w chofio yng nghwmni un o gorau mwyaf llwyddiannus Cymru. Diolch o galon i'r côr am berfformio, i Gwawr Owen am arwain y côr ac i Dafydd Huw am gyfeilio. Diolch i bawb o aelodau Ebeneser, Caerdydd, fu'n brysur yn trefnu'r digwyddiad ac i Eynon Williams am gydlynu'r cwbl.

### Adfent

Cafwyd cyfle pellach i godi arian at yr apêl yn yr oedfaon ar yr ail Sul o'r Adfent. Yn oedfa'r bore a oedd o dan arweiniad y menywod, cafwyd cyflwyniad am waith Cymorth Cristnogol yng Ngholombia trwy ddefnyddio'r adnoddau pwrpasol sydd wedi eu paratoi gan yr Undeb. Diolch i Alison Jones am drefnu'r gwasanaeth bendithiol ac i bawb a gymerodd ran. Yna yn y pnawn fe gafwyd oedfa Nadolig o amgylch y byrddau wedi ei threfnu gan Catrin Roberts. Cymrodd nifer o aelodau ran trwy ddarllen cyfran o stori'r geni gwyrthiol a sgriptiwyd ymsonau gan Catrin oedd yn portreadu ymateb rhai o'r cymeriadau. Diolch i Catrin ac i bawb gymerodd ran.

Ar ddiwedd y ddwy oedfa fe gafwyd lluniaeth ysgafn, cacennau blasus ar y byrddau oedd wedi eu haddurno'n Nadoligaidd. Diolch i bawb fu'n brysur yn pobi ac i Bethan Hayes am baratoi addurniadau bwrdd hyfryd. Llwyddwyd i godi £233.








## Gwerthfawrogi Enfys

Ers dwy flynedd ar hugain y mae Enfys Harding wedi bod yn cynrychioli Ebeneser gyda gwaith y Tabernacl, Caerdydd, yn rhoi te a lloches i'r digartref ar bnawn Sul. Yn y cyfnod hwnnw y mae wedi bod yn cynrychioli ein heglwys ar y pwyllgorau a hefyd yn trefnu'r rota lle y mae aelodau'n gwirfoddoli i helpu. Nid yw hwnnw wedi bod yn waith rhwydd bob tro ac y mae wedi golygu fod Enfys wedi gorfod llenwi'r bwlch ar lawer i achlysur. Y mae ganddi gonsyrn a gofal mawr dros y rhai hynny sy'n byw ar strydoedd ein prifddinas a thros dymor y Nadolig y mae hi ac Elin, ei merch, yn mynd â phecynnau bwyd ac anrheg iddynt. Hoffem ddiolch ar ran ein holl aelodau i Enfys am ei holl waith. Ar fore Sul 10 Rhagfyr cyflwynwyd tusw o flodau iddi gan y gweinidog Alun Tudur fel arwydd o'n gwerthfawrogiad.



# Fy eBay o Feibl

Yn ddiweddar bûm yn siarad â Chylch Cinio Caerfyrddin gan dywys yr aelodau i ganol tref Caerfyrddin yn Awst 1801. O fynd yn ôl i'r union gyfnod hwnnw a'n gosod ein hunain rhwng lle mae Caffé Nero heddiw ac adeilad Neuadd y Dref, buasem yn dyst i ddigwyddiadau a fagodd arwyddocâd a phwys cenedlaethol. Yno o fewn pellter cyffwrdd â ni mae tri o gymeriadau mawr ein hanes, Iolo Morganwg, Tomos Glyn Cothi a John Ross. O glosio atynt gallwn glywed eu sgwrs a theimlo awel yr haf yn llenwi'u hysgyfaint.

### Teyrnfradwriaeth

Mae'r tri ar eu ffordd i Neuadd y Dref lle cynhelir llys i wrando achos o deyrnfradwriaeth a ddygwyd yn erbyn Tomos. O fewn rhai oriau bydd y diwygiwr cymdeithasol a chrefyddol yn wynebu dwy flynedd o garchar. Ychydig ynghynt bu Iolo Morganwg yn tyrchu trwy weithdy'r argraffydd John Ross ar gornel y Porth Tywyll a chanfod yno gopi o Frut y Tywysogion yn llawysgrifen Evan Evans, neu Ieuan Brydydd Hir. Llawysgrif oedd hon y bu'n chwilio amdani am gyfnod maith ac un a fyddai rai blynyddoedd yn ddiweddarach yn destun cweryl rhyngddo a'i noddwr Owain Myfyr. Dyma gweryl a arweiniodd at roi terfyn ar y berthynas gynhyrchiol rhyngddynt o ran casglu a chyhoeddi testunau llenyddol yn y Gymraeg.

### John Ross


Ond at ddibenion yr erthygl hon, carwn dreulio peth amser yng nghwmni'r trydydd o'r tri chymeriad, sef John Ross. Bu ei gyfraniad at hyrwyddo llyfrau Cymraeg a llythrennedd yn un aruthrol. Fe lwyddodd i chwyldroi y byd argraffu yng Nghymru trwy broffesiynoli a phoblogeiddio'r 'wasg Gymraeg '. Albanwr ydoedd o dras a niwlog yw'r hanes ynglŷn â sut y bu iddo lanio yn nhref Caerfyrddin. Mae fy ymchwil wedi arwain at ddau gyfeiriad mewn papurau newyddion a oedd yn honni iddo gefnu ar Lundain a chyrchu'r gorllewin am resymau gwleidyddol neu grefyddol. Adroddiadau ydynt a welodd olau dydd ganrif wedi marw Ross ac nid ydynt yn ymhelaethu dim mwy na hynny. Credaf yn gryf y bu ganddo gysylltiadau â Wiliam Strahan, a'i fab Andrew, a fu am flynyddoedd yn Argraffwyr i'r Brenin, gan y bu i John Daniel o Gaerfyrddin dderbyn ei brentisiaeth yno wedi iddo fod o dan hyfforddiant Ross am saith mlynedd. Nid oes un ffordd y buasai Daniel wedi llwyddo i sicrhau lleoliad mor anrhydeddus oni bai fod ganddo rywun i'w gymeradwyo – ac mae'n amlwg i mi mai dim ond Ross fyddai'n meddu ar y cysylltiadau hynny.

Dim ond dau gyfeiriad ato y llwyddais i'w canfod yn Archifdy'r Sir. Y naill yn llythyr a arwyddwyd gan Ross, ymysg eraill o gynulleidfa Capel Heol Awst, yn ceisio diddymiad y ddeddf oedd yn rhwystro Pabyddion ac Anghydffurfwyr rhag dal swyddi cyhoeddus a'r llall oedd argraffiad cyntaf o Feibl Peter Williams ym 1770 yn dwyn enw'r argraffydd medrus wedi'i Gymreigeiddio'n Ioan Ross. Ross oedd yn gyfrifol am y tri argraffiad cyntaf.

### Beibl Peter Williams



Rai blynyddoedd yn ôl a minnau'n 'gwglo' hanes Ross cefais fy nghyfeirio at wefan masnachu eBay. Yno, ymysg yr offer electronig, celfi'r ardd a'r beiciau di-ri, roedd copi o Feibl Peter Williams am £50. Bu cyhoeddi Beibl Peter Williams yn garreg filltir nodedig. Hwn oedd y Beibl cyntaf o 7 a argraffwyd ar dir Cymru a'r un a lwyddodd i symud y darllen o'r pulpud i'r parlwr, o'r oedfa i'r aelwyd. Er mai i 1770 y dyddiwyd yr argraffiad cyntaf, roedd Ross wedi bod yn argraffu darnau ohono ers 1767 a'r rheini'n cael eu gwerthu am swllt yr un. Punt oedd cost yr argraffiad cyntaf yn gyfan. Cynhyrchwyd 19,000 o gopïau gan Ross yn ei argraffdy ar waelod Heol Awst. Dylid nodi i John Daniel (Heol y Brenin) argraffu 4,000 o gopïau ac argraffwyd yr un nifer yn Nhrefeca hefyd.




### Beibl yr Aelwyd

Mae'r Beibl sy'n fy meddiant i yn un a argraffwyd mewn sawl darn, hynny oedd yn fforddiadwy i'w berchennog am wn i, gyda dau ddyddiad arno, 1796 a 1797. Beibl cartref ydoedd gydag enwau teulu John Jones, saer maen, wedi'u cofnodi rhwng 1784 a 1802. Mae'r darnau wedi'u rhwymo'n gadarn, mwy na thebyg gan un o'r amryw o fusnesau rhwymo oedd yn bodoli yn y dref. Mae'n Feibl ag ôl gofal arno er, mae'n siŵr, iddo dreulio'i amser mewn amgylchiadau digon llwm. Wrth reswm, mae gwerth amhrisiadwy yng nghynnwys y Beibl; nid oes angen ymhelaethu ar hynny.

Ond gwelaf hefyd rhwng ei gloriau werth arall trwy gyfrwng tair stori sy'n dweud rhywbeth am ei gyfnod: hanes John Ross a'r chwyldro argraffu a fu rhwng Heol y Priordy, Heol y Brenin a Heol Awst; stori annelwig diarddel Peter Williams o'r mudiad Methodistaidd, hynny o bosib oherwydd ei ddehongliad o athrawiaeth y Drindod yn nodiadau'r Beibl; a stori daer John Jones a fuddsoddodd yn selog yn y Gymraeg a'i Gair. Hyn oll am hanner can punt. Bargen.

**Aled Evans**

(allan o *Papur Priordy* rhifyn 369 Medi 2023)


**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

Hysbyseb Swydd

**Ysgrifennydd Gweinyddol**

Llawn-amser 37.5awr yr wythnos

Chwilio am her? Awydd newid gyrfa?

Dyma gyfle cyffrous i berthyn i dîm blaengar sy'n gweinyddu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ydych yn meddu ar y sgiliau i reoli cyllid a chynnig arweiniad i'r Undeb ar faterion ariannol a statudol?

Oes gennych y ddawn i ddatblygu perthynas gydag eglwysi ar faterion yn ymwneud â'u cyllid, statws elusennol a chyfrifoldebau statudol?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr neu am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, ABERTAWE. SA7 0AJ


Ffôn: 01792-795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dyddiad cau: 8 Ionawr 2024**

Yr Adran
Gydenwadol

RHAGFYR 28 2023 RHIF 148/9

# Lansio cyfrol newydd o fyfyrdodau ar ferched yn y Beibl






Yn ystod mis Tachwedd cynhaliwyd noson yn y Tabernacl, Caerdydd, i lansio'r gyfrol *Codi'r Llen*, sef addasiad o *Unveiled* gan Clare Hayns. Dyma lyfr rhodd arbennig, yn ein cyflwyno i hanesion 40 o wragedd yn yr Hen Destament, ynghyd â 40 portread celf o bob un ohonynt.

Braf oedd cael cwmni cynifer yn y Tabernacl i rannu'r myfyrdodau hyn am rai o ferched cudd y Beibl. Er bod rhai o ferched yr ysgrythurau Hebraeg yn adnabyddus, prin fod llawer o'r lleill yn cael eu cofio o gwbl. Hyd yn oed pan maent, nid ydym yn oedi'n ddigon hir i feddwl beth y gallwn ei ddysgu ganddynt. Mae *Codi'r Llen*, sydd wedi'i ysgrifennu gyda didwylledd a hiwmor ac yn cynnwys gwaith celf trawiadol, yn archwilio storïau 40 o ferched a oedd yn rhan o naratif y Beibl yng nghyfnod yr Hen Destament. Gorffennir pob myfyrdod drwy ei gymhwyso'n fyr i fywyd bob dydd, gan roi arweiniad i'w ystyried ymhellach a gweddi. Mae'r gyfrol bellach ar gael yn y siopau am £13.99 neu ar lein o www.gwales.com.

Mae Clare Hayns, awdur y gyfrol wreiddiol, yn Gaplan Coleg yn Eglwys Crist, Rhydychen, a'i mab Micah yw arlunydd y llyfr hwn. Meddai Clare:

'Daeth y llyfr hwn i fod oherwydd anwybodaeth. Ychydig flynyddoedd yn ôl, roeddwn mewn siop yn trefnu i gael fframio lluniau pan wnaeth y perchennog, o weld fy ngholer wen, y gosodiad sy'n gwneud i arweinwyr eglwysig grynu: "Fe fyddwch yn gwybod yr ateb i hyn gan eich bod yn ficer."

'Y cwestiwn a ofynnodd oedd, "Miriam yw enw cariad fy mab, ac rwy'n gwybod ei bod yn y Beibl – ond pwy oedd hi?" Roedd yn gwestiwn da, ond roeddwn yn petruso. Gwyddwn fod a wnelo hi rywbeth â Moses, ond dim llawer mwy. Daeth cwsmer arall i mewn, ac felly cymerais y cyfle i guddio'r tu ôl i'r fframiau er mwyn cael gwglo ei gwestiwn! Fe ddes i oddi yno'n benderfynol o ddarganfod mwy am Miriam a hefyd holl ferched eraill yr ysgrythur. Gosodais her i mi fy hun i ysgrifennu am ferch o'r Beibl bob dydd dros 40 niwrnod y Grawys a'u casglu ynghyd yn gyfrol.

'Drwy godi'r llen ar storïau'r merched rhyfeddol hyn a'u dewisiadau, fy ngobaith yw y gallwn ddysgu mwy amdanynt a hefyd ddod i wybod mwy am gariad helaeth Duw tuag atom ni a phawb arall. Rwyf wedi dysgu cymaint gan y merched hyn ac rwy'n gobeithio y gwnewch fwynhau darllen amdanynt gymaint ag y gwnes i fwynhau ysgrifennu amdanynt.'

Ruth Davies fu'n gyfrifol am yr addasiad Cymraeg, ac eglurodd:

'Bu'r gyfrol yn brosiect gennyf yn ystod fy mlwyddyn fel Llywydd Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru 2022–23. Cefais gymorth parod gyda'r cyfieithu gan rai o aelodau'r Tabernacl a ffrindiau: Gwenllian Edwards, Luned Edwards, Zohrah Evans, Anna Gruffudd Fleming, Calan McGreevy, Lisa Tiplady a Bethan Whittall. Diolch i bob un ohonynt am eu gwaith a'u cefnogaeth, a diolch arbennig i Bill Davies am fod yn graig i mi ac yn barod ei gyngor a'i sylwadau bob amser.

'Cyflwynaf y gyfrol hon i'r Parchedig Ddr Rosa Hunt i ddathlu blwyddyn gyntaf ei gweinidogaeth arnom yn y Tabernacl, Caerdydd: am ei chariad, ei hysbrydoliaeth ddiflino ac am fod yn esiampl i ni i gyd i'w hefelychu.'

Dywedodd Rosa Hunt, gweinidog Eglwys y Tabernacl, Caerdydd:


'Pan fyddaf yn cwrdd â merched yn fy eglwys a'm cymuned, rydw i'n gweld unigolion sy'n ddewr, yn onest, yn ffyddlon, yn weithgar, yn greadigol, yn glyfar – ac yn amherffaith, fel fi! A dyna'n union y math o ferched rydw i'n cwrdd â nhw yn nhudalennau'r Ysgrythurau Hebraeg. Diolch i bawb a gyfieithodd y gyfrol feddylgar ac ymarferol hon i'r Gymraeg, i'n hatgoffa bod lle pwysig ac arbennig i ferched yng nghynllun Duw, nid yn unig yn nhudalennau'r Beibl ond hefyd ym mywyd ein heglwysi a'n capeli drwy Gymru heddiw.'

Diolch hefyd i'r awdures brofiadol Naomi Starkey, sy'n ficer ar gylch o eglwysi ym Môn, am ei sylw hithau ar y gyfrol:

'Mae'r gwragedd sy'n camu allan i'n cyfarfod o dudalennau'r llyfr hwn yn cynnwys y rhai sy'n hysbys a'r rhai sydd bron yn anhysbys. Mae rhai o'u straeon yn gorlifo â goleuni a gobaith; mae eraill yn drwm gan boen a thywyllwch. Ond gall pob un ohonynt gysylltu – hyd yn oed yn rhannol – â'n bywydau ninnau. Oherwydd rydym yn darganfod mai yr un Duw rydym ni'n ei geisio a'i foli – y Duw sy'n gweld, sy'n gwrando, sy'n darparu – ac yn caru.'

*Aled Davies*

# CROESAIR NADOLIG



**Beth yw testun ein llawenydd? Ar ôl i chi lenwi'r croesair, fe fydd y llythrennau yn y rhes uchaf a'r llythrennau yn y rhes isaf, yn eu trefn, yn datgelu'r ateb (3 gair). Daw'r adnodau o'r BCN, oni nodir yn wahanol, a'r emynau o *Caneuon Ffydd*.**

### Ar draws

7. ------ dy droed pan fyddi'n mynd i dŷ Dduw. (*Pregethwr 5*) (6)
8. Simeon -- ----'r broffwydes: dau oedd yn y deml pan gyflwynwyd y baban Iesu. (2,4)
9. Peth da yw halen, os nad yw'n colli ei ----, yn ôl Luc 14. (4)
10. - ------- ddydd ein Duw,
    Oleuni pur y nef. (*Emyn 821*) (1,7)
11. 'I'r dyn y mae'r brenin yn dymuno'i anrhydeddu, dylid dod â gwisg frenhinol a wisgir gan y brenin, a cheffyl y marchoga'r brenin arno, un y mae ------- y brenin ar ei dalcen. (*Esther 6*) (7)
12. Priododd y ddau gyda merched - ----; Orpa oedd enw'r naill a Ruth oedd enw'r llall. (*Ruth 1*) (1,4)
15. Aeth â Jehoiachin i Fabilon, a hefyd dwyn yn ---- - Jerwsalem i Fabilon, ei fam a'i wragedd a'i weinyddwyr a phendefigion y wlad. (*II Brenhinoedd 24*) (4,1)
17. Seiniwyd yr utgyrn a bloeddiodd yr Israeliaid nes - ------ Jericho syrthio. (1,6)
20. Adenydd colomen pe cawn,
    Ehedwn a -------- ymhell. (*Emyn 749*) (8)
22. Mae'r llyfr hwn yn dod rhwng Ail Lyfr y Cronicl a Llyfr Nehemeia. (4)
23. Fel babanod newydd -- ----, blysiwch am laeth ysbrydol pur. (*I Pedr 2*) (2,4)
24. Dyma gyfrif - ----- gorfod a bennodd y Brenin Solomon er mwyn adeiladu tŷ'r Arglwydd a'i dŷ ei hun. (*I Brenhinoedd 9*) (1,5)

### I lawr

1. ---- -- y croesbren acw
   gyfiawnder mawr y ne'. (*Emyn 504*) (4,2)
2. Mam Ioan Fedyddiwr (8)
3. Gŵyl y Geni (7)
4. Anfonodd ei weision - ---'- gwahoddedigion i'r neithior, ond nid oeddent am ddod. (*Mathew 22*) (1,3'1)
5. Enciliai ef i'r mynydd
   - --- ar ei Dad. (*Emyn 721*) (1,3)
6. Fy ----- - lŷn wrthyt: dy ddeheulaw a'm cynnal. (*Salm 63:8 BWM*) (5,1)
13. Esther, y ferch a fabwysiadwyd gan -------- (*Esther 2*) (8)
14. Metha nef a daear
    gynnwys ein Duw;
    Ciliant hwy a darfod
    pan fydd -- -- ---. (*Emyn 466*) (2,2,3)
16. ---, --- a myrr (3,3)
18. Unwaith pan oedd y dyrfa'n gwasgu ato ac yn gwrando ar --- ---, ac ef ei hun yn sefyll ar lan Llyn Genesaret, gwelodd ddau gwch yn sefyll wrth y lan. (*Luc 5*) (3,3)
19. 'Ti yw Pedr , ac ar y ----- hon yr adeiladaf fy eglwys.' (Mathew 16) (5)
21. Pob un felly sy'n gwrando ar y geiriau hyn o'r eiddof ac -- -- gwneud, fe'i cyffelybir i ddyn call, a adeiladodd ei dŷ ar y graig. (*Mathew 7*) (2,2)

**Diolch i Siân Lewis, Llanilar, am baratoi'r Croesair ar ein cyfer eleni eto.**

**Argraffwch y dudalen ac wedi cwblhau'r croesair anfonwch eich ymgais atom, i: Croesair Cenn@d, Ael-y-bryn, Chwilog, Pwllheli, LL53 6SH, ac fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £20 i'r ateb cywir cyntaf o'r het ar 9 Ionawr ar ei ffordd atoch. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad!**

# ‘Wele, cawsom y Meseia’

‘Wele, cawsom y Meseia,’ meddai Dafydd Jones o Gaeo (1711–77) yn ei garol boblogaidd. Ond beth yw tarddiad y gair ‘Meseia’? Meshiach yw’r ynganiad Hebraeg a chyfieithiad ohono i’r Groeg yw Christos – Crist. Felly, ystyr Iesu Grist yw Iesu’r Meseia. Mor aml mae pobl yn credu mai cyfenw Iesu yw Crist: Mr Crist! Ystyr gyfyng Meshiach yw ‘un wedi ei eneinio’. Eneinio yn yr Hen Destament oedd arllwys olew am ben rhywun er mwyn ei neilltuo i gyflawni swydd arbennig. Roedd eneinio’n cael ei ddefnyddio i neilltuo pobl i dair swydd, sef: archoffeiriad, proffwyd a brenin.

1. Archoffeiriad
Cafodd Moses orchymyn i eneinio’i frawd Aaron a’i feibion er mwyn eu cysegru i fod yn offeiriaid i Dduw: ‘Yr wyt i’w gwisgo am Aaron dy frawd a’i feibion, a’u heneinio, eu hordeinio a’u cysegru, er mwyn iddynt fy ngwasanaethu fel offeiriaid.’ (Exodus 28:33–41, hefyd 29:7–9 a 30:25–30). Gwaith yr archoffeiriad oedd bod yn gyfrwng rhwng Duw a’i bobl a hefyd i offrymu aberthau dros bechodau Israel yn y tabernacl a’r deml.

2. Proffwyd
Roedd y proffwydi hefyd yn cael eu heneinio er mwyn eu neilltuo i’w gwaith. Digwyddodd hyn i’r proffwyd Eliseus: ‘Dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, “Dos yn ôl i gyfeiriad anialwch Damascus, a phan gyrhaeddi, eneinia Hasael yn frenin ar Syria, a Jehu fab Nimsi yn frenin ar Israel, ac Eliseus fab Saffat o Abel-mehola yn broffwyd yn dy le.”’ (1 Brenhinoedd 19:15–16)

Gwaith y proffwydi oedd cyhoeddi gair Duw gan alw pobl Israel a’i harweinwyr i gyfrif. Wrth wneud hynny, roedd rhai’n cyflawni gwyrthiau.

3. Brenin
Roedd brenhinoedd hefyd yn cael eu heneinio. Eneiniwyd Saul yn frenin gan Samuel: ‘Cymerodd Samuel ffiol o olew a’i dywallt dros ei ben, a’i gusanu a dweud, “Onid yw’r ARGLWYDD yn d’eneinio’n dywysog ar ei bobl Israel, ac onid ti fydd yn rheoli pobl yr ARGLWYDD, ac yn eu gwaredu o law eu gelynion oddi amgylch?”’ (1 Samuel 10:1, hefyd 16:10–13). Gwaith brenin yw teyrnasu’n gyfiawn gan edrych ar ôl buddiannau ei deyrnas.

**Y Meseia Iesu**
Pan anwyd Iesu, daeth fel Meseia Duw, yr un sydd wedi ei eneinio, wedi ei neilltuo i waith arbennig. Fe ystyrir hanes Iesu yn cael ei fedyddio yn afon yr Iorddonen gan Ioan Fedyddiwr a’r Ysbryd Glân yn disgyn arno fel hanes ei eneinio (Marc 1:9–11). Ac fel y Meseia y mae Iesu’n cyfuno’r tair swydd, fel archoffeiriad, proffwyd a brenin. Ar ddechrau ei weinidogaeth aeth Iesu i’r synagog. Cymerodd sgrôl y proffwyd Eseia gan ddarllen y geiriau hyn:

“Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i,
oherwydd mae wedi fy eneinio i
i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd.
Mae wedi fy anfon i gyhoeddi fod y rhai sy’n gaeth i gael rhyddid,
a phobl sy’n ddall i gael eu golwg yn ôl,
a’r rhai sy’n cael eu cam-drin i ddianc o afael y gormeswr …” (Luc 4:18)

**Fel Archoffeiriad**
Y mae Iesu’r Eneiniog wedi ei roi ei hun yn aberth perffaith er mwyn cymodi Duw a phobl. Pan fu farw ar y groes, cymerodd ein pechodau ni arno’i hun a chael ei gosbi yn ein lle. Rhan o waith yr archoffeiriad oedd mynd i mewn i’r cysegr sancteiddiolaf (y stafell fwya sbesial yn y deml) i aberthu aberth cymod rhwng pobl a Duw. Dim ond un waith y flwyddyn yr oedd yr archoffeiriad yn cael mynd i mewn.

‘Dyna’r math o Archoffeiriad sydd ei angen arnon ni – un sydd wedi cysegru ei hun yn llwyr, heb bechu o gwbl na gwneud dim o’i le, ac sydd bellach wedi ei osod ar wahân i ni bechaduriaid. Mae e yn y lle mwya anrhydeddus sydd yn y nefoedd. Yn wahanol i bob archoffeiriad arall, does dim rhaid i hwn gyflwyno’r un aberthau ddydd ar ôl dydd. Roedd rhaid i’r archoffeiriaid eraill gyflwyno aberth dros eu pechodau eu hunain yn gyntaf ac yna dros bechodau’r bobl. Ond aberthodd Iesu ei hun dros ein pechodau ni un waith ac am byth.’ (Hebreaid 7:26–7)

**Fel Proffwyd**
Y mae Iesu’r Eneiniog yn cyhoeddi neges am gariad rhyfeddol Duw tuag at ddynoliaeth ac yn galw pobl i edifeirwch a ffydd. Y mae’n sefyll o blaid y bregus ac yn llym iawn wrth y rhai hynny sy’n anghyfiawn a gormesol. Yn wir, Iesu yw neges Duw i ddynolryw: ‘Yn y gorffennol pell roedd Duw wedi siarad gyda’n hynafiaid ni drwy’r proffwydi. Gwnaeth hyn bob yn dipyn ac mewn gwahanol ffyrdd. Ond bellach, yn y cyfnod olaf hwn, mae wedi siarad â ni drwy ei Fab.’ (Hebreaid 1:2)

‘Y Gair oedd yn bod ar y dechrau cyntaf.
Roedd y Gair gyda Duw,
a Duw oedd y Gair.’ (Ioan 1:1)

**Fel Brenin**
Y mae Iesu’r Eneiniog yn llywodraethu dros y cwbl. Y mae’n dod â theyrnas Duw i’r byd sy’n llawn cyfiawnder, cariad a gras, teyrnas sy’n iacháu ac yn adnewyddu. Y mae’n cynnal ac yn nerthu ei bobl ac yn eu galluogi i oresgyn eu gelynion, a phan ddaw yn ôl, Ef fydd y Barnwr cyfiawn.

‘Felly dyma’r angel yn dweud wrthi, “Paid bod ofn, Mair.
Mae Duw wedi dewis dy fendithio di’n fawr.
Rwyt ti’n mynd i fod yn feichiog, a byddi di’n cael mab.
Iesu ydy’r enw rwyt i’w roi iddo.
Bydd yn ddyn pwysig iawn,
a bydd yn cael ei alw’n Fab y Duw Goruchaf.
Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd y Brenin Dafydd,
a bydd yn teyrnasu dros bobl Jacob am byth.
Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!’ (Luc 1:30–33)

Yn nhymor y Nadolig, dathlwn mai Iesu yw’r Meseia, eneiniog Duw, yr Archoffeiriad, y Proffwyd a’r Brenin.

*Alun Tudur*

# Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli



Cawsom ein cyfarfod Nadolig, a'n cinio Nadolig yn dilyn, fore Mawrth, 12 Rhagfyr 2023. Yn wahanol i'r rhaglen arferol, bob blwyddyn yn ein cyfarfod Rhagfyr, cyn ein cinio Nadolig, cawn gyfle i groesawu i'n plith a gwrando ar siaradwr gwadd, ac eleni roedd yn hyfrydwch i gael cwmni hynaws y brawd Cleif Harpwood. Mae bellach wedi setlo eto yn y gorllewin, gan ymgartrefu'n hapus ym Moncath yn sir Benfro, y tro hwn i'r de o afon Teifi.

Rhannodd Cleif gyda ni straeon difyr am Nadolig ei blentyndod yn Aberafan neu 'Brafan, fel y mae'n dweud wrth gyfeirio at ardal ei gynefin. Cydnabu ei ddyled i'w fagwraeth ar fron capel Bedyddwyr Ebeneser yn Aberafan, y capel lle'r addolai ei fam, a'i ddyled aruthrol i Alwyn Samuel, oedd yn brifathro arno yn Ysgol Gymraeg Pont-rhyd-y-fen. Clwysom am gariad Cleif at y Gymraeg a Chymreictod ei fagwraeth, ac roedd yn ddealladwy ei fod yn cartrefu'n dda eto mewn cymuned ac ardal Gymraeg. Bu'n gwmni braf gyda ni ac roedd yn hyfrydwch pur gwrando arno'n rhannu straeon difyr am ei gefndir a hefyd yr hyn, meddai, wrth iddo edrych yn ôl ar yrfa ddisglair, sydd wir yn cyfrif ac yn bwysig yn ei olwg. Roedd cloi'r sgwrs drwy ddarllen yn llawn emyn Ehedydd Iâl, ei hoff emyn – 'Y nefoedd uwch fy mhen' – yn glo bendigedig i'w stori a'i dystiolaeth yntau.

Wedi gwrando ar Cleif yn ein hannerch, cawsom gydwledda gan fwynhau'r ginio Nadolig ragorol a baratowyd i ni gan Robert Bowen a'i staff, sydd bob amser mor groesawgar ac yn gweini arnom yn rhadlon o fis i fis. Cyfarfod Nadolig bendithiol arall, a mawr oedd ein diolch am yr holl arlwy a'r gymdeithas braf a chynnes yng Ngaffi Beca.

*Emyr Gwyn Evans*

# Dydd Gweddi'r Byd

## Cynhadledd y De – Festri Heol Awst, Caerfyrddin
## Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Daeth cynrychiolaeth dda ynghyd i'r Gynhadledd er mwyn paratoi ar gyfer Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd, 1 Mawrth 2024. Paratowyd y gwasanaeth ar gyfer 2024 gan ferched Cristnogol Palesteina. Cyn dechrau ar y gwasanaeth derbyniwyd croeso mawr gan wragedd Capel Heol Awst, a mwynhawyd te, coffi a bisgedi. Cafwyd gair ingol oddi wrth Iris Owen, o Amnest Caerfyrddin, a soniodd am yr ymgyrch sydd ymlaen ar hyn o bryd ganddynt, ymgyrch i gefnogi trwy arwyddo llythyr Amnest, sef 'Write for Rights'. Mae'r ymgyrch hon yn para o ddechrau Tachwedd hyd ddiwedd Rhagfyr bob blwyddyn, pan fydd cardiau cyfarch yn cael eu hanfon at garcharorion neu eu teuluoedd, yn ogystal â llythyron at arweinwyr gwledydd neu swyddogion y llywodraethau. Grŵp Amnest Caerfyrddin fydd yn eu hanfon yn unigol.



Wedyn aethpwyd drwy wasanaeth Dydd Gweddi'r Byd gyda Sarah Morris, cyd-Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Cymraeg. Cafwyd cwmni a chyfraniadau pwysig gan wragedd o eglwysi Heol Awst; Tabernacl, Caerfyrddin; Cwmgiedd; y Babell, Rhydaman; Peniel, Bro Cemaes; Dyffryn Teifi; Aberteifi, Llangadog; Gibeon, Sanclêr; y Priordy, Caerfyrddin; Llanddarog, a nifer o ffrindiau sy'n awyddus i gynnal y gwasanaeth ym mis Mawrth 2024.


Am ragor o wybodaeth neu adnoddau, cysyllter â Sarah: sarah.morris@ebcpcw.cymru, a gellir archebu rhaglenni gan y trysorydd, Margaret Morgan: margaretmaudmorgan@gmail.com.

Gwerthfawrogwyd presenoldeb pawb yn y gynhadledd a dymunwyd yn dda i Natalie Morgan, sy'n derbyn hyfforddiant o dan adain y Parchedig Beti Wyn James. Arweiniwyd y grwpiau trafod gan Helen Gibbon, y Parchedig Sian Elin Thomas a'r Parchedig Carys Ann.

*Parchedig Beti Wyn James a'r Parchedig Carys Ann*
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 14**
**Canu Clod**
**31 Rhagfyr**

### Gweddi

Agorwn ddrysau mawl
i bresenoldeb Duw;
pan fydd ein calon ni'n y gân
ei galon ef a'n clyw. Amen.
(John Gwilym Jones;
*Caneuon Ffydd* 3)

### Darlleniad: Salm 149

### Cyflwyniad

Mae rhyw gyfaredd mewn canu cynulleidfaol sy'n cael ei werthfawrogi gan amryw o grefyddau'r byd. Weithiau bydd fel siant, dro arall bydd ar alaw boblogaidd ar ffurf emyn. Disgrifir Llyfr y Salmau fel casgliad o emynau'r Iddewon, ac mae amryw ohonynt yn amlwg ganadwy. Cyfeirir at ganu emyn ar ddiwedd y Swper Olaf (Marc 14:26) a gwerthfawrogir bod emyn yn medru bod yn ddatganiad o fawl a myfyrdod, gweddi ac eiriolaeth, heb anghofio'r emynau o ymgysegriad.

Cafodd emynau lawer o ddylanwad yn y Diwygiad Protestannaidd, a bu cyfraniad gwaith William Williams fel emynydd yn allweddol bwysig i roi credo ar ffurf cân. Yn niwygiad 1904/5 roedd canu yn rhan amlwg o'r profiadau ysbrydol, a gwyddom fod gan gerddoriaeth le canolog ym mhob un o'r traddodiadau Cristnogol, ar wahân i addoliad y Crynwyr.

### Myfyrdod

Cyfraniad hyfryd nifer o eglwysi fydd ymweld â chartrefi sy'n gofalu am yr henoed a dwyn addoliad i ganol sefyllfaoedd felly. Bydd rhai unawdwyr neu bartïon canu yn mwynhau ymweld â'r cartrefi hyn a difyrru'r deiliaid. Profiad amryw sydd wedi tystio i hyn yw gweld y sawl sy'n dioddef o anghofrwydd neu fath o ddementia yn teimlo'r awydd i ymuno yn y gân. Mae'r gweithgarwch hwn yn fendith i bawb ac yn dwyn cymdogaeth ynghyd. Bydd rhai eglwysi'n dewis ymweld â chartrefi preifat eu haelodau a chanu carolau gan ddifyrru a dwyn cyfarchion i rai sydd yn gaeth i'r tŷ o bosibl.

Mae i gerddoriaeth yn gyffredinol ac i ganu cynulleidfaol lu o rinweddau sy'n llesol i'r enaid. Bydd harmoneiddio naturiol yn y datganiad yn amlygu pwysigrwydd harmoni ymhlith y cantorion. Mae'r alaw yn denu pobl i wrando a bydd y gerddoriaeth yn medru deffro rhywbeth yn yr enaid sy'n ddyfnach na deall dynion.

Dwy nodwedd amlwg y garol yw bod y geiriau'n dweud y stori tra mae'r gerddoriaeth yn denu pobl i rythm y ddawns. Wrth ganu'r carolau ar ddiwedd blwyddyn ac ymlaen i dymor y plygain, gwahoddwn y gynulleidfa i dderbyn yr hanes ac i ddilyn Arglwydd y ddawns i'r yfory a ddaw.

### Gweddi

Diolchwn i ti, Nefol Dad, am gerddoriaeth, ac yn arbennig am hyfrydwch y carolau sydd i'w canu dros gyfnod y gaeaf ar ôl y Nadolig. Canwn ein moliant i ti, Arglwydd, ac ymroi i ddatgan dy glod ar hyd y flwyddyn. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Cyfeirir at y salmau fel llyfr emynau'r Iddewon. Ystyriwch amrywiaeth themâu'r salmau a gofyn beth fyddwch yn dewis ei ganu a pham?
2. Pa garol neu gân plygain sy'n eich sbarduno i ryfeddu at y baban yn y preseb?
3. A yw disgrifio Iesu fel 'Arglwydd y ddawns' yn ein cynorthwyo yn ein moliant?
4. A yw oes y canu cynulleidfaol pedwar llais yn dod i ben? Os felly, beth fydd yn dda ac yn ddrwg am hynny?
5. Tasech chi'n llunio thema i garol neu gân plygain newydd, beth fyddai am ei ddweud?

## Gweddi'r Nadolig '23

Iôn yr arfaeth, mala'r arfa' – cariad
nid cweryl yw'r gora',
Duw Iôn, y Newyddion Da,
gosod y crud yn Gaza.

## Cofio

O, cofiwn fel y cafwyd – o wyryf
Un heriodd Bren Arswyd,
Duw fel baban a anwyd
Y Llyw – yn lle'r rhygnu llwyd.

## Triban y Nadolig

Tri pheth i gôl y 'Dolig –
nodded i blant briwedig,
rhoi cariad triw a gwiw i'r gwan
â'r baban Bendigedig.

Norman Closs


S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Nos Galan, Sul, 31 Rhagfyr am 7.30yh – Uchafbwyntiau'r Ŵyl**
Bydd Ryland Teifi yn rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr mae'r cyflwynydd Siân Thomas, yr hanesydd Jon Meirion Jones a'r Parch. Dylan Rhys o gyfres Ffit Cymru. A chawn berfformiad gan Aelwyd Hafodwenog.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 31 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Denzil John

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 31 Rhagfyr, am 12yp**
Oedfa dan ofal y Parchedig Dorrien Davies, Esgob Tyddewi

# J. D. Vernon Lewis a Phenillion Carolaidd Arbennig Luther

Yng ngaeaf 1923, gan mlynedd yn ôl, y troswyd o'r Almaeneg gan J. D. Vernon Lewis emyn Luther (1483–1546) i'w blentyn Hans: 'Vom himmel hoch', sef 'Cân yr Angel' a Moliant Plentyn' – carolau ar gyfer cyfarfodydd plant Eglwys Gibea, Brynaman. Dysgwyd y dôn iddynt, ac roedd y plant yn canu emyn Luther mewn Almaeneg ac yn Gymraeg. Eiddo Luther yw'r dôn hefyd.



Roedd John Daniel Vernon Lewis (1879–1970) yn frodor o Abertawe a bu'n weinidog ar eglwysi Annibynnol yn Lerpwl, Wrecsam ac wedyn Gibea, Brynaman (1921–35), nes ei ddewis yn Athro ac yna'n Brifathro Coleg Coffa Aberhonddu. Treuliodd ei ymddeoliad yn Aberllefenni ar y dechrau, cyn symud i Fachynlleth.

Roedd Vernon Lewis yn ysgolhaig ac yn awdur o bwys. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n gwasanaethu mewn Almaeneg i garcharorion yn Aberhonddu a Glangwili, ger Caerfyrddin. Byddai hefyd yn darlithio yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin.

Cyfieithodd emyn Edwin Hatch, 'Breathe on me, Breath of God' i'r Gymraeg ac meddai:

'Dyma'r emyn a adroddai y Parch. E. Keri Evans, Caerfyrddin, â'i anadl olaf a gweddi erfynol emyn mawr Edwin Hatch ar ei fin, 4 Mehefin 1991, a minnau yn ddiarwybod yn cyfieithu'r emyn ar yr union ddydd y bu ef farw! Canwyd y cyfieithiad ar lan ei fedd yn Eglwys Llandyfrïog, Castell Newydd Emlyn, a thrachefn mewn gwasanaeth Coffa yn ei hen eglwys barchus, y Priordy, Caerfyrddin. Ar gais ei weddw, a'i ferch, Nesta Keri Wood, y genhades, pennais yr hyn sydd heddiw yn argraffedig ar ei fedd-faen yn Llandyfrïog.'

Dywed *Y Bywgraffiadur Cymreig* am Vernon Lewis: 'Safai ym mhob dim yn rheng y cewri, ac fel medelwr arbennig gadawodd ysgubau arbennig ar ei ôl.'

Ymysg yr ysgubau hynny mae'r gyfrol *Mawl i'r Goruchaf* (1962), sef casgliad o emynau a chyfieithiadau o'i eiddo. Yn y gyfrol hon y gwelir penillion carolaidd Luther:

**Vom Himmel hoch komm ich her**
*Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd,*
*yr hwn yw Crist yr Arglwydd – Luc 2:11*

**Cân yr Angel**
O'r nefoedd fry y deuthum lawr,
Gan ddwyn i chwi newyddion mawr;
Newyddion da a bery mwy,
Mi ganaf byth amdanynt hwy.

I chwi y ganwyd Ceidwad dyn,
Ac anfonedig Duw ei Hun,
Yn blentyn hardd a thyner iawn,
A ddwg i chwi lawenydd llawn.

**Moliant Plentyn**
Hwn yw ein Crist a'n Harglwydd ni,
Ym mhob rhyw loes fe wrendy'n cri;
Hwn yw ein Ceidwad cryf o hyd,
I'n gwneud yn lân a gwyn ein byd.

Ein calon mwy a lawenha,
I draethu y Newyddion Da;
O enau plant daw'r felys gân
Fu'n suo crud yr Iesu glân.

Gogoniant i'r Goruchaf Dduw,
Am roi ei Fab i'n plith i fyw;
Angylion gân â llawen lef –
Daw dyddiau'r ddaear fel y nef.

Martin Luther, 1483–1546

*Alun Charles* (Allan o Bapur y Priordy Rhagfyr '23)

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

## Neges i Gydlynwyr Diogelu yn yr eglwys leol

Os ydych newydd ymgymryd â rôl ddiogelu yn eich eglwys leol, wedi gwneud hyn ers tro, neu'n ystyried y rôl, mae'r dudalen newydd hon ar wefan y panel ar eich cyfer chi: https://panel.cymru/cy/cydlynydd-diogelu-lleol

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y rôl a dolenni ac adnoddau defnyddiol, gan gynnwys y daflen newydd hon: Cydlynydd diogelu ydw i … beth nesaf? i'ch helpu i ddeall y rôl a'ch cyfrifoldebau diogelu.

Mae yna sesiynau hyfforddiant newydd ar gyfer cydlynwyr diogelu ar y gweill yn 2024. Bydd y sesiwn cyntaf ar 15/2/24, gyda mwy o ddyddiadau i ddilyn: https://panel.cymru/cy/hyfforddiant

Yma hefyd fe gewch chi wybodaeth a dolenni i archebu hyfforddiant diogelu lefel 2, sy'n orfodol ar gyfer gweinidogion bob pedair blynedd, a hyfforddiant diogelu lefel 1 ar gyfer gwirfoddolwyr.

Cofiwch fod swyddogion y panel ar gael i'ch helpu gyda phob agwedd ar ddiogelu grwpiau bregus: post@panel.cymru

# George Fox 1624–91

*Eleni ym mis Gorffennaf byddwn yn cofio 400 mlwyddiant geni George Fox, sylfaenydd Cymdeithas y Cyfeillion neu'r Crynwyr. Dyma grynodeb o'i hanes.*



Ganwyd George Fox yn Drayton-in-the-Clay – heddiw fe'i gelwir yn Fenny Drayton – Swydd Caerlŷr (Leicestershire). Roedd ei rieni'n Biwritaniaid, ei dad yn wehydd a'i fam 'o linach y merthyron'. Nid yw'n ymddangos iddo gael unrhyw addysg ffurfiol. Dywedir pan oedd yn fachgen un ar ddeg oed ei fod yn honni iddo gael profiadau ysbrydol a theimlo purdeb y presenoldeb dwyfol. Roedd ei rieni'n awyddus iddo fynd i'r offeiriadaeth ond fe'i prentisiwyd yn hytrach fel crydd.

### Galwad

Un diwrnod mewn ffair cafodd wahoddiad gan ddau Biwritan i fynd i wlychu ei big a diota. Gadawodd yn fuan oherwydd ei fod yn gweld anghysondeb mawr rhwng eu cred Gristnogol a'u hymddygiad moesol. Y noson honno, ac yntau yn bedair ar bymtheg oed, teimlodd alwad gan Dduw i adael ei waith a mynd ar bererindod ysbrydol.

### Goleuni mewnol

Am dair blynedd bu'n chwilio am berffeithrwydd gan drafod gydag offeiriaid, ond nid oedd hyn yn ei fodloni. Ni allai deimlo sicrwydd ei fod wedi ei achub na phrofi buddugoliaeth dros bechod. Treuliodd lawer o amser yn darllen y Beibl a gweddïo ond ni chafodd dawelwch yn ei galon hyd 1647 pan glywodd lais Duw yn siarad gydag ef. Yn ddiweddarach dywedai ei fod wedi cael tangnefedd nid trwy'r Ysgrythur ond trwy i Grist ei ddatguddio ei hun yn uniongyrchol iddo. Yn raddol datblygodd ei syniadaeth ynglŷn â goleuni mewnol yng nghalonnau pobl. Yn nes ymlaen rhai o brif nodweddion y Crynwyr oedd eu bod yn wrthoffeiriadol, yn gwrthod tyngu llw ac yn ffyrnig yn erbyn talu'r degwm i'r Eglwys Sefydledig ac erbyn diwedd cyfnod Fox, yn heddychwyr.

### Pregethu teithiol

Yn fuan dechreuodd weinidogaethu fel pregethwr teithiol. Dywedai, 'Am ormod o amser mae Crist wedi cael ei gloi mewn offeren neu yn Y Llyfr; caniatewch iddo fod yn broffwyd, yn offeiriad, yn Frenin. Ufuddhewch iddo.' Argyhoeddwyd cannoedd gan yr hyn a ddywedai. Pregethai yn yr awyr agored ac ar ddiwedd cyfarfodydd gan y Piwritaniaid. Wrth bregethu un tro o Efengyl Ioan, dywedodd fod 'pob dyn yn cael ei oleuo gan oleuni dwyfol Crist ac y byddai pobl oedd yn ffyddlon iddo yn cyrraedd cyflwr o berffeithrwydd fel Adda cyn y cwymp.' Oherwydd ei safbwyntiau ac am iddo dorri ar draws pregeth fe'i carcharwyd yn Nottingham ym 1649. Mewn achos llys y flwyddyn ddilynol disgrifiodd yr Ynad ef fel 'Quaker', ac fe gydiodd yr enw. Yn ddiweddarach gelwid ei ddilynwyr yn Blant y Goleuni a Chyfeillion y Gwirionedd.

### Awdur

Ym 1652 symudodd i Pendle Hill, Swydd Gaerhirfryn (Lancashire), ac yma fe gafodd lwyddiant mawr. Daeth miloedd i gredu ac erbyn 1654 gallai anfon 60 o genhadon allan i gyhoeddi eu cenadwri. Yn ystod ei oes cyhoeddodd Fox lawer o bamffledi a thraethodau. Un o'i bamffledi mwyaf radical oedd *Fifty-Nine Particulars for the Regulating [of] Things* (1659). Yn hwn galwai ar y llywodraeth i gymryd eiddo oddi ar y cyfoethogion er mwyn rhannu gyda'r tlodion.

### Gwrthsefydliadol

Datblygodd arferion arbennig ymhlith y Crynwyr. Roeddent yn gwrthod gwisgo dillad crand, codi eu hetiau i ustusiaid ac ymuno â'r fyddin, ac yr oeddent yn galw ar yr Eglwys i droi at heddychiaeth.

Oherwydd hyn bu'n rhaid iddynt wynebu llawer o erledigaeth; ymosodwyd ar rai a charcharwyd eraill. Lladdwyd 32 o Grynwyr. Ym 1669 priododd Fox gyda Margaret Fell a daeth eu cartref, sef Swarthmore Hall, Swydd Gaerhirfryn, yn ganolfan i'r mudiad. Anfonwyd cenhadon i Barbados, Jamaica, Virginia a Lloegr Newydd. Ym 1671 aeth Fox ar daith i Barbados a Jamaica ac i Maryland, Long Island a Rhode Island yng Ngogledd America er mwyn cyfarfod ac annog y Crynwyr oedd wedi ymsefydlu yno. Roedd y Crynwyr yn enwog am eu tegwch mewn busnes ac oherwydd hynny ffynnodd llawer ohonynt. Pan fu farw George Fox ar 13 Ionawr 1691 roedd nifer y Crynwyr wedi cynyddu i oddeutu 100,000. Claddwyd ei weddillion gerllaw Tŷ Cwrdd, Bunhill Fields.

# Beichiau bywyd a'u bendithion


A oes rhywbeth yn pwyso ar eich meddwl, rhywbeth sydd yn eich poeni o hyd? Mae'r Salmydd yn rhoi cyngor da i chi felly: 'Bwrw dy faich ar yr Arglwydd, ac efe a'th gynnal di.' (Salm 55: 22)

Does dim rhaid i chi gario'r beichiau hyn; fe gariaf fi nhw i chi,' medd Duw. Petaech chi'n gweld dyn yn cario baich trwm ar ei gefn, ac yn cynnig lifft iddo, byddai'n dringo i'r cerbyd ac yn gollwng ei faich i lawr. Fyddai o ddim yn dal i gario ei faich ar ei gefn! Dyna mae Duw yn ei gynnig i ni. 'Bwrw dy faich arnaf fi.' Mae beichiau bywyd yn gallu bod yn drwm iawn weithiau. Rhowch nhw i mi i'w cario ac mi wnaf hynny', meddai'r Arglwydd. Cofiwch mai 'ffyddlon yw'r hwn a addawodd.' (Heb.10:23)

Mae'r gair Hebraeg am 'baich' yn golygu 'rhodd gan Dduw'; ac os yw'n 'rhodd gan Dduw' mae felly yn beth da yn y pen draw. Weithiau mae Duw am i ni ei brofi: profi ei ffyddlondeb, a chanfod y beichiau yn diflannu am ei fod Ef yn eu cludo yn ein lle. 'Profwch fi yr awr hon,' medd Duw. (Mal. 3:10)

Ond y mae hyn hefyd yn brawf o'n ffydd ni. Wedi cyflwyno ein problem gallwn brofi pa mor real yw ein ffydd ni hefyd. Rhaid i ni ofalu gadael ein beichiau gyda Duw, a pheidio â mynnu eu codi unwaith eto. Dyna a wnaeth Hanna wedi iddi rannu gyda Duw mewn gweddi ei baich o fod yn ddi-blant: 'Ac ni bu athrist mwy.' (1 Sam. 1:18) Dyma brawf o'n ffydd, neu o'n diffyg ffydd.

**(Allan o *Rhaffau'r Addewidion*, John Harvard Vevar)**



# Golygyddol

## 2024

Hoffwn ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch yn ystod 2024 a Duw yn agos. Pob bendith i'ch teuluoedd ac i'r eglwysi yr ydych yn aelodau ohonynt. Wrth i bawb ohonom edrych yn ôl dros blygion 2023 cymysg oedd ein profiadau. Profasom y trist a'r llawen, iechyd ac afiechyd, llwyddiant ac aflwyddiant, bywyd a marwolaeth. Cymysgfa amrywiol yw pob blwyddyn yn ein hanes. Ond gwyddom hyn fel Cristnogion, beth bynnag fu a pha beth bynnag ddaw ein bod yn fwy na choncwerwyr trwy'r hwn a'n carodd. (Rhuf. 8: 37)

### Camu ymlaen

Ac wrth edrych ymlaen tuag at flwyddyn arall yn ein hanes, ni ŵyr neb ohonom beth a ddaw. Tywyllwch anhreiddiadwy yw'r dyfodol sy'n llawn dirgelwch ac ansicrwydd a rhaid meddu ar ffydd er mwyn camu ymlaen. Er, fel Cristnogion y mae rhai pethau y gallwn eu cymryd yn ganiataol. Yn y Beibl mae nifer o gymeriadau yn camu ymlaen i'r dyfodol mewn ffydd bod Duw wrth y llyw ac yn goruwchlywodraethu. Er enghraifft Abram yn gadael Ur y Caldeaid, Moses yn dychwelyd yn ôl i'r Aifft, Josua yn camu trwy'r Iorddonen i wlad yr addewid, Pedr yn camu o'r cwch ar orchymyn Iesu. Ni wyddai'r un ohonynt ben draw'r hyn yr oeddent yn ei wneud ond roeddent yn ymddiried mewn ffydd fod gan yr Arglwydd gynllun i'w gyflawni trwyddynt.

### Joseff

Hanes arall sydd gyda'r un pwyslais yw stori Joseff. Roedd Joseff, gan ei fod yn ffefryn gan ei dad, yn dân ar groen ei frodyr. Ar ôl hir a hwyr gwerthasant ef i fasnachwyr pobl oedd yn teithio heibio. Twyllasant eu tad i gredu ei fod wedi ei ladd gan anifail rheibus. Cludwyd ef i'r Aifft ac yno fe'i carcharwyd a'i gam-drin. Ond oherwydd ei ddoniau anghyffredin fe'i dyrchafwyd yn y diweddi fod yn wladweinydd pwysig gan Pharo. Wedi peth amser, o ganlyniad i newyn difrifol, aeth ei deulu draw i'r Aifft i fegera am fwyd. Trugarhaodd Joseff wrthynt a'u bwydo ond wrth ddatgelu pwy ydoedd dywedodd Joseff hyn wrth ei frodyr, 'Yr oeddech chwi yn bwriadu drwg yn f'erbyn; ond trodd Duw y bwriad yn ddaioni, er mwyn gwneud yr hyn a welir heddiw, cadw'n fyw llawer o bobl.' (Genesis 50:20)

Y mae Duw yn defnyddio sefyllfaoedd drwg ac anodd i wneud daioni, i weithredu ei gynlluniau ac i ddod ag egwyddorion ei deyrnas. (Does dim ond rhaid meddwl am erchyllterau croes Calfaria a'r daioni tragwyddol ddeilliodd ohoni. Credai teyrnas y tywyllwch eu bod wedi ennill y dydd, ond nid felly y bu.)

### Mae Duw ar waith

Wrth wynebu blwyddyn newydd gallwn gymryd yn ganiataol y bydd Duw yn cyflawni ei fwriadau er gwaethaf yr hyn fydd yn digwydd. Mae sefyllfa ysbrydol Cymru ar hyn o bryd yn affwysol ond, mae Duw ar waith. Mae achosion yn cau y naill ar ôl y llall, ond mae Duw ar waith. Rydym yn wael iawn am gyrraedd pobl ifanc gyda'r newyddion da, ond mae Duw ar waith. Fe gawn golledion, fe wynebwn salwch fe wylwn ddagrau, cawn ein temtio i roi'r ffidil yn y to, ond mae Duw ar waith. Oherwydd y mae Duw yn gallu troi sefyllfaoedd o dywyllwch yn ffynhonnell daioni a llwyddiant.

Gallwn gymryd yn ganiataol eto eleni wrth gamu i'r dyfodol. 1. Y bydd Duw gyda ni. 2.Y bydd Duw yn cyflawni ei waith er ein gwaethaf . 3. Y byddwn yn ddiogel doed a ddelo.

Bwriadau dyfnion arfaeth gras
ar fyr aeddfeda'n llawn;
gall fod y blodau'n chwerw eu blas,
ond melys fydd y grawn.

WILLIAM COWPER *(God moves in a mysterious way)*, 1731–1800
cyf. LEWIS EDWARDS, 1809–87

**Alun Tudur**




# Newyddion da i bobl dlawd!

Mae cynnydd mawr wedi bod yn y defnydd o fanciau bwyd yn ein gwlad. Mannau ydi'r rhain lle gellir cael bwyd pan mae gwir argyfwng yn codi. Sefydlwyd rhai mewn amryw o ardaloedd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n destun gofid gweld pobl ein gwlad yn gorfod dibynnu ar fanc bwyd i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae mwy nag erioed yn eu defnyddio y dyddiau hyn. Amod derbyn bwyd ydi cael gair gan berson cydnabyddedig megis meddyg, gweithiwr cymdeithasol neu berson awdurdodedig arall sy'n cadarnhau'r angen amdano. Neu gallwch fynd i'r banc bwyd i geisio cymorth ac arweiniad. Bu un wraig yn adrodd ei phrofiad o orfod mynd i'r banc bwyd. Roedd yn deimlad anghyfforddus y tro cyntaf meddai ond fod y gofal a'r croeso a dderbyniodd wedi lleddfu ei hofn a'i phryder. Diolchwn fod rhai wedi mynd ati i sefydlu llefydd o'r fath mewn cyfnod o wasgfa ariannol. Wrth i ni wynebu tymor oer y gaeaf a'r Nadolig bydd mwy a mwy angen y banciau hyn.

### Gweld angen

Cofiwn hefyd fod yr efengyl Gristnogol wedi ei sefydlu gan Dduw'r Tad Nefol am ei fod yn gweld angen arnom ni. Cofiwn eiriau Iesu 'Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd ... Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon.' (Mathew 5:3–6) Dod a derbyn gras Duw ydi'r amod er cael ein digoni a'n cysuro gyda meddiannau teyrnas Dduw. Tristwch y sefyllfa ydi fod rhai o hyd yn ei chael yn anodd dod oherwydd bod balchder yn eu rhwystro i gydnabod angen am faddeuant a chynhaliaeth Duw. Teimlad o annheilyngdod sy'n cadw eraill draw. Clywch eiriau yr Arglwydd trwy'r Proffwyd Eseia, 'Dewch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch, er eich bod heb arian; prynwch a bwytewch. Dewch, prynwch win a llaeth, heb arian a heb dâl.' Eto clywch ei wahoddiad trwy ei Fab, Iesu Grist, 'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi.' (Mathew 11:28–29) Meddai Iesu wrthynt, 'Myfi yw bara'r bywyd. Ni bydd eisiau bwyd byth ar y sawl sy'n dod ataf fi, ac ni bydd syched byth ar y sawl sy'n credu ynof fi.' (Ioan 6:35)




Dim ond dod a derbyn yn ddiolchgar sydd raid inni. Dyna ydi newyddion da!

**R. O. Roberts**
(Allan o *Llais Bro Aled* 29 Hydref 2023)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Anrhydeddu Haulwen – cyflwyno Medal Gee

Braint oedd cael bod yn dyst i seremoni arbennig i anrhydeddu Haulwen Lewis – sef oedfa i gyflwyno Medal Thomas a Sussanah Gee iddi am ei ffyddlondeb a'i hymroddiad i'r ysgol Sul yn y Tabernacl, Pencader ar ddydd Sul 26 Tachwedd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan blant yr ysgol Sul a chafwyd cyfraniadau o werthfawrogiad gan Nerys Thomas a Ffred Ffransis ar ran yr ysgol Sul. Yn ei neges, cyfeiriodd y Parchedig Aled Davies at Ddameg yr Heuwr a phwysigrwydd hau'r hadau er mwyn iddynt dyfu ac ehangu nes ymlaen. Ond er pwysigrwydd yr hadau, rhaid peidio ag anghofio'r heuwr a'i rôl yntau. Braf oedd gweld cynifer o gyn-aelodau'r ysgol Sul yn bresennol a bod y cysylltiad yn parhau – y cyfan yn brawf bod yr hadau wedi ehangu a dwyn ffrwyth a diolch fo i Haulwen am hynny.




Ymfalchïwn yn fawr yng nghyfraniad aelodau ffyddlon yr Eglwys a diolchwn iddynt am roi o'u hamser at waith y ffydd ac am ddilyn dysgeidiaeth Iesu Grist.







Bu'n wych fel dysgawdwr, fe wnaeth bethau mawr,
a llwyr ein llawenydd yn Iesu yn awr,
ond mwy ein rhyfeddod, sancteiddiach ein clod
o'i weld yn wefreiddiol ryw ddydd uwch y rhod.

E. H. Griffiths (*C.Ff.* 563)

### Drama Nadolig yr ysgol Sul

Dathlwyd dwy garreg filltir bwysig iawn yn y Tabernacl Pencader ar Sul 10 Rhagfyr, pen-blwydd Iesu Grist a phen-blwydd Mrs Nancy Jones. Cawsom wledd o ganu ac adrodd stori'r geni gan y plant ynghyd â pherfformiadau offerynnol. Dosbarthwyd anrhegion i'r plant am eu ffyddlondeb yn ystod Suliau'r flwyddyn. Cyflwynwyd neges y Nadolig gan ein Gweinidog y Parchedig Chris Bolton a chyfle i bawb fyfyrio dros ystyr y gair Nadolig gan gofio am y doethion a'r bugeiliaid, yr angel Gabriel a'r gogoniant a ddaeth drwy enedigaeth y baban mewn preseb. I orffen yr oedfa fendithiol, cafodd pawb gyfle i ganu pen-blwydd hapus i Nancy yn 90 oed ac ni fyddai'r un pen-blwydd yn gyflawn heb de a danteithion yn y festri a channwyll ar gacen.

Diolch i bawb am ymuno yn y digwyddiad arbennig hwn unwaith eto eleni ac am baratoi'r llwybr tuag at ŵyl y Geni.

**Siân Thomas**



*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*